Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf mewn 4 rhan

COED HYNAFOL

UNED 1: TAFLEN ATHRAWON

(amser a awgrymir: 1-4 awr)

Cyflwyniad Cyffredinol:

Helfa Coed Hynafol Coed Cadw

Mae Coed Cadw yn cynnal prosiect cenedlaethol i ddarganfod a chofnodi ein coed hynafol.

Archwiliwch gynnwys gwefan Helfa Coed Hynafol Coed Cadw **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project**. Astudiwch amcanion y safle hwn - yr angen i annog pobl o bob oed i ddod yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw a gwerthfawrogi ein coed hynafol, mewn coetiroedd, parciau, yng nghefn gwlad ac yn y trefi. Trafodwch gyda disgyblion eu hagweddau a'u teimladau ynghylch gwerth ein coed a chefn gwlad.

Helpwch Coed Cadw i ganfod a mapio'r holl goed hen a thew ar draws Prydain. Defnyddiwch y cynlluniau gwers hyn fel rhan o gwricwlwm Celf a Dylunio Cyfnod Allweddol 3 i ymchwilio, dysgu am, a chymryd rhan yn y gwaith o ddod o hyd i'r coed arbennig hyn.

Bwriad gwefan yr Helfa Coed Hynafol a'r gwersi hyn yw annog pobl ifanc i fynd ati i chwilio am goed hynafol a chofnodi gwybodaeth gan ddefnyddio camerâu, paentiau a deunyddiau lluniadu i greu gweithfeydd celf cyffrous y gellid eu defnyddio i greu mwy o ymwybyddiaeth a chyhoeddusrwydd i'r Helfa Coed Hynafol wrth gyflawni gofynion cwricwlaidd. *(Gweler tudalen 2 am y cysylltiadau cwricwlaidd)*

Amcanion Dysgu – i'r 4 Rhan

- Astudio a dysgu am dwf a strwythur coeden hynafol. Arsylwi, braslunio a chyfleu emosiwn a dyluniad maint, cryfder a manylion y gwreiddiau, boncyff, canghennau, brigau, dail a rhisgl.
- Perthnasu'r wybodaeth hon gyda strwythurau eraill fel pensaernïaeth, traffyrdd a dyluniadau eraill a wnaed gan ddyn. Ystyried y cydbwysedd rhwng adeiladwaith a natur yn ein hamgylchedd ein hunain.
- Defnyddio'r wybodaeth hon i ddrafftio syniadau ac yna dylunio eich strwythurau a'ch cerflunwaith eich hunan gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i arddangos strwythur, cryfder a gwneuthuriad cain.
- Gweithio'n unigol ac mewn grwpiau i ddatblygu syniadau a chysyniadau gan ystyried sut all gwahanol ddiwylliannau, hinsoddau ac amgylcheddau effeithio ar ein dyluniadau a'n penderfyniadau.
- Trafod, gwrando, cwestiynu a datblygu natur y prosiect hwn trwy weithgareddau ac ymchwil yn defnyddio'r Rhyngrwyd.
- Astudio penseiri, artistiaid a darlunwyr eraill i edrych ar arddull, swyddogaeth a chysyniadau. (Mae Andy Goldsworthy yn enghraifft dda o artist sy'n gweithio gyda natur a 3D. Roedd gan Van Gogh, Cezanne, Turner, Graham Sutherland, Constable a Kyffin Williams oll eu harddulliau unigryw i fynegi eu dealltwriaeth o'r dirwedd).

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf mewn 4 rhan

COED HYNAFOL

Prif Gysylltiadau Cwricwlwaidd

Sgiliau

Deall

1. *defnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain trwy ddadansoddi/cymharu/gwerthuso*
2. *archwilio arferion gweithio amrywiol artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol gyfnodau/lleoedd/diwylliannau gan ystyried eu diben a'u bwriadau*

Ymchwilio

1. *datblygu sgiliau penodol ar gyfer cofnodi ar sail arsylwi/profiad/y cof/y dychymyg a datblygu sgiliau penodol ar gyfer ymchwilio i'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd gwneud gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau*
2. *archwilio a threfnu ystod o ddeunydd cyfeirio/ystod o adnoddau er mwyn sefydlu a datblygu syniadau neu themâu*
3. *cadw llyfr braslunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymchwilio er mwyn datblygu syniadau a theimladau/archwilio themâu/archwilio defnyddiau a phrosesau ac arbrofi â nhw/cychwyn a chefnogi gwaith annibynnol*

Gwneud

1. *archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio*
2. *dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau*
3. *cael profiad o ystod eang o dechnegau a chyfryngau i wireddu eu syniadau/mynegi eu teimladau/cyfleu ystyr.*

Ystod

Deall

Cael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill/gwaith eu cyfoedion/dulliau a phrosesau/ delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes

Datblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng llyfrau/fideos/adnoddau digidol/y rhyngrwyd.

Ymchwilio

Ymchwilio i briodweddau defnyddiau a phrosesau/gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol/gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud.

Defnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o lyfrau/fideos/adnoddau digidol/y rhyngrwyd/eu harbrofion ymarferol a'u cofnodion eu hunain ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys enghreifftiau lleol a Chymreig.

Gwneud

Cael cyfleoedd i weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp a gweithio yn yr awyr agored, gan ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau celf a dylunio. Gallu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill.

Cysylltiadau cwricwlaidd eraill

Datblygu cyfathrebu: Llafaredd a Chyfathrebu ehangach
Datblygu TGCh
ADCDF

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Adnoddau i gefnogi pedair rhan y prosiect hwn

Ffotograffig:

Mae gan wefan Yr Helfa Coed Hynafol ddetholiad eang o ddelweddau a gwybodaeth. Ewch i **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project**.

Derwen Dickens yn Chigwell, Essex, tua 300-400 mlwydd oed. Dywedir fod Charles Dickens yn arfer ymweld â'r tŷ tafarn lleol ac y byddai'n gyfarwydd â'r goeden hon.

Banc Swiss Re (y Gerkin), Llundain

Derwen Dickens, Chigwell, Essex

Helygen

Dail llwyfen

Dail y goeden Oestrwydden

Rhestr Adnoddau Gweithgareddau Awyr Agored:

- Dillad, esgidiau a dillad dal dŵr addas
- Sachau teithio a bwyd a diod addas
- Tapiau mesur defnydd hir a chortyn i fesur cwmpas a maint y goeden
- Chwyddwydrau i archwilio hadau, dail a blagur yn fanwl
- Ffenestri cipio golygfeydd
- Camerâu
- Clipfyrddau a llyfrau braslunio
- Ystod o bensiliau 1B – 9B, pensiliau a chreonau graffit neu Conté, siarcol; creonau cwyr a pheniau ffelt.
- Mapiau OS lleol.
- Casgliad o fagiau i ddail, brigau a hadau (Dylech sicrhau nad ydych yn niweidio unrhyw goed)

Rhestr Adnoddau Gweithgareddau Dan Do:

- Llyfrau nodiadau a llyfrau braslunio
- Ystod o bensiliau 1B – 9B, pensiliau a chreonau graffit neu Conté, siarcol; creonau cwyr a pinau ffelt.
- Peniau ac inciau (gwahanol liwiau).
- Papur cetris A3 neu fwy i gynhyrchu'r dyluniadau terfynol
- Glud a phast
- Paent a brwshys, mawr a bach, (brwshys peintio waliau ar gyfer mannau mwy) ar gyfer peintio'r strwythurau terfynol
- Ystod o wifrau tenau a thrwchus a rhwyllau gwahanol drwch ar gyfer adeiladu fframwaith a strwythurau
- Papier Maché
- Plinthiau pren i gynnal strwythurau, styffylau ac offer llaw – morthwyl a gefeiliau
- Mynediad i'r Rhyngrwyd

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

UNED 1: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 1 Astudiaeth ac Ymchwiliad:

Amcanion dysgu

- Deall a defnyddio TG a'r Rhyngrwyd fel dull ymchwil, edrych ar goed, yr amgylchedd, artistiaid a dyluniad 3D.
- Defnyddio trafodaethau grŵp i rannu syniadau a theimladau ynghylch yr amgylchedd, cadwraeth a sut gallwn ni ddiogelu neu niweidio'r cydbwysedd hwn.
- Llunio nodiadau ac arsylwadau ysgrifenedig i gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer ei defnyddio yng nghamau nesaf y prosiect hwn.

Cwestiynau i hybu ystyriaeth a thrafodaeth gan ddefnyddio gwefan Yr Helfa Coed Hynafol

Edrychwch drwy rai o'r tudalennau a'r wybodaeth ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol sef **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project** a defnyddiwch hyn i drafod gyda'r disgyblion rai o'r cwestiynau canlynol:

- ***Pam y mae coed yn bwysig i'n dyfodol?***
  Trafodwch yr amgylchedd a'r angen i ofalu am ein dyfodol, ein coed a'n bywyd gwyllt.
- ***Sut maent yn chwarae rôl yn ein goroesiad?***
  Gall coeden fawr ddarparu ocsigen i wyth person, glanhau llygryddion o'r atmosffer, creu cyflenwad o fforestydd cynaliadwy ar gyfer adeiladu ac yn y gorffennol, darparu tanwydd.
- ***Faint o wahanol rywogaethau o goed allwch chi eu henwi?***
  Meddyliwch sut mae gan bob rhywogaeth ei chymeriad unigryw ei hunan, siâp a lliw'r dail, mae gan y rhisgl wahanol weadau, mae blagur a changhennau yn tyfu'n wahanol. Edrychwch ar wefan Coed Cadw i ganfod dolenni at wahanol erthyglau ar adnabod dail, sut i fesur coed a llawer mwy.
- ***Sut oedd pren y coed hyn yn cael ei ddefnyddio yn y gorffennol?***

Offer angenrheidiol:

Mynediad i'r Rhyngrwyd

Llyfrau nodiadau a pheniau

Adnoddau delwedd ffotograffig

Er enghraifft, tanwydd, adeiladu llongau, adeiladu tai, dodrefn ac offer llaw. Pa grefftau oedd yn bodoli a pha rai sy'n dal i fodoli? Dyma rai enghreifftiau: tocio, prysgoedio, gwneud cadeiriau, llosgi siarcol, a phlygu gwrychoedd. Allwch chi restru pethau sy'n cael eu gwneud o bren arbennig? Helyg i fatiau criced ac aspirin, derw i longau a chelyn i ffyn cerdded ac addurniadau Nadolig.

- ***Sut mae strwythur y goeden yn cael ei adlewyrchu mewn pensaernïaeth gyfoes?***
  Mae gan adeiladau isadeiledd – coridorau, ystafelloedd, grisiau, gwasanaethau fel plymio a thrydan, ffenestri i roi golau. Beth yw llwybrau'r coed? Eu canghennau, sylem a ffloem. Mae gan draffyrdd gyffyrdd ac maent yn cario lorïau a cheir sy'n cludo bwyd a nwyddau.
- ***Sut mae coed a chefn gwlad yn effeithio ar ddyluniad ein trefi a'n dinasoedd?***
  Mae cydbwysedd naturiol yn creu cytgord i'n bywyd gwyllt, coed a phoblogaeth. Mae cynllunwyr yn fwy ymwybodol bellach o'r angen am gydbwysedd wrth ddylunio adeiladau a threfi. Mae parcdiroedd, coetiroedd a choed trefol i gyd yn helpu cynnal amgylchedd iach i ni fyw a gweithio ynddo.

Gofynnwch i'ch disgyblion grynhoi'r wybodaeth a ddysgwyd hyd yma.

Dywedwch y bydd yn bwysig iddynt gofio'r wybodaeth hon gan y bydd yn rhaid ei defnyddio yn y gweithgaredd awyr agored yn Rhan 2 – Gwneud cyfres o frasluniau ac astudiaethau o Goeden Hynafol.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

UNED 1: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2 Brasluniau ac Ymchwiliad:

Amcanion dysgu

- Archwilio a datblygu syniadau gan ddefnyddio trafodaeth ac arsylwadau.
- Gwella sgiliau arsylwi gan ddefnyddio ffotograffiaeth, nodiadau a brasluniau i gofnodi manylion y coed.
- Gwylio, gwrando ac arsylwi ar y bywyd gwyllt o amgylch y goeden yr ydych yn ei hastudio, ystyried ei hoedran a'i gwerth hanesyddol.
- Dysgu am strwythur ac esblygiad coeden hynafol.
- Dysgu trafod a mynegi syniadau a gweithio'n unigol ac fel grŵp i berthnasu'r cysyniadau hyn i'r goeden sy'n cael ei hastudio.
- Dysgu cadw at y Côd Cefn Gwlad a pharchu a gofalu am yr amgylchedd a bod yn ystyriol wrth eraill.

Cwestiynau i'w trafod gyda'ch disgyblion

Bwriedir i'r cwestiynau hyn fod yn ymestyniad o'r drafodaeth a gafwyd ynghynt yn Rhan 1 ond fe'u cynlluniwyd i'w defnyddio fel rhan o drip maes i ymweld â choeden hynafol naill ai ar safle'r ysgol neu mewn parc neu warchodfa natur leol.

Edrychwch ar sut mae coeden yn tyfu; mae pawb yn gwybod bod mesen, ffrwyth y dderwen, yn gallu tyfu'n goeden anferth dros gannoedd o flynyddoedd. Mae gan bob coeden ei ffordd ei hunan o ledaenu naill ai trwy hadau neu haenau.

Gwnewch gyfres o frasluniau a ffotograffau yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r drafodaeth ac astudiwch eich coeden. Defnyddiwch eich syniadau ar gyfer eich prosiect dosbarth nesaf.

- ***Edrychwch ar strwythur a dyluniad hadau coed***
  Mae gan y côn ddyluniad troellog diddorol, sy'n tynnu sylw artistiaid a mathemategwyr. Gan edrych ar eich coeden, defnyddiwch chwyddwydrau i weld y manylion mân a lluniwch frasluniau o'r hadau a'r dail gan edrych yn ofalus ar y ffordd y mae eu strwythur yn rhoi cryfder, cynhaliaeth ac amddiffyniad iddynt. Dylech sylwi fod gan rai dail wythiennau main sy'n lledaenu i ffurfio ei strwythur ei hunan, bron fel mân-fersiwn o'r goeden. Mae'r ffawydden, y dderwen, y llwyfanen a'r fasarnen yn enghreifftiau da o hyn.
- ***Sut caiff hadau, blagur a dail eu hamddiffyn rhag yr elfennau fel haul, rhew a glaw?***
  Mae dyluniad y dail yn galluogi'r goeden i oroesi drwy'r gaeaf a'r haf, gwres ac oerfel, sychderau a llifogydd. Mae rhai coed yn addasu eu hunain i'w hamgylchedd trwy siapio eu

Offer angenrheidiol:

Dillad, esgidiau a dillad dal dŵr addas

Sachau teithio a bwyd a diod addas

Tapiau mesur defnydd hir a chortyn i fesur cwmpas a maint y goeden (gellir ymweld â gwefan Coed Cadw am wybodaeth ar fesur coed ac adnabod rhywogaethau, lle mae'n bosibl llwytho i lawr dogfennau PDF)

Chwyddwydrau i archwilio hadau, dail a blagur yn fanwl

Ffenestri cipio golygfeydd i farnu maint a chyfansoddiad

Camerâu i gofnodi gwybodaeth, manylion, saethiadau hir o weithgareddau disgyblion

Clipfyrddau, llyfrau nodiadau a llyfrau braslunio

Ystod o bensiliau 1B – 9B, pensiliau a chreonau graffit neu Conté, siarcol; creonau cwyr a pinau ffelt.

Mapiau OS lleol.

Casgliad o fagiau i ddail, brigau a hadau (Dylech sicrhau nad ydych yn niweidio unrhyw goed).

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

Rhan 2 (parhad)

dail. Mae'r binwydden yn enghraifft o hyn; mae ganddi ddail siâp nodwydd sydd wedi'u haddasu i alluogi eira i syrthio oddi arnynt yn y gaeaf a hefyd i sicrhau bod llai o arwyneb i leithder anweddu drwyddo mewn amodau sych. Mae coed collddail fodd bynnag yn colli eu dail yn y gaeaf ac yn mynd i fath o aeafgwsg i'w hamddiffyn yn ystod y gaeaf.

- ***Trafodwch y gwahanol ddail a siâp coed a changhennau i ddysgu mwy am eu strwythur.***
- ***Edrychwch ar siâp eich coeden, mae llawer ohoni'n gorwedd islaw'r ddaear gyda system gefnogol gwreiddiau enfawr.***
- ***Pam y mae angen y gwreiddiau hyn ar y goeden; beth yw eu pwrpas?***
  Mae'r gwreiddiau'n ymwthio'n ddwfn i'r ddaear i helpu sefydlogi'r goeden, sy'n aml yn pwyso sawl tunnell, gyda chanopi eang o ganghennau yn chwythu yn y gwynt. Mae'r strwythur gwreiddiau hefyd yn darparu dŵr a maetholion hanfodol i'r goeden, sy'n hanfodol i hybu tyfiant a bwydo blagur ifanc a dail newydd.
- ***Sut mae hyn yn cymharu â dyluniad a phensaernïaeth adeiladau modern?***
  Mae'r siâp côn geometrig yn debyg i siâp adeilad Banc Swiss Re yn Llundain (gweler y llun).
- ***Dychmygwch y canopi dail fel to adeilad; pa enghreifftiau allwch chi feddwl amdanynt?***
  Mae boncyff y goeden yn cludo dŵr (miloedd o litrau fel y mae pibellau dŵr a cheblau trydan yn rhedeg drwy strwythur adeilad). Soniwch am adeilad *Lloyds, Canolfan Pompidou, Prosiect Eden, Canolfan y Mileniwm* a'r *Senedd* ym Mae Caerdydd a dyluniadau creadigol eraill. Ymchwiliwch i ychydig o bensaernïaeth leol fel rhan o'r wers nesaf.
- ***Mae coed hynafol yn aml yn wag y tu mewn oherwydd eu natur a'u hoed, gan wneud cartref i fywyd gwyllt, anifeiliaid, pryfed a phlanhigion.***
- ***Dychmygwch oleudy yn sefyll ar glogwyn, yn gwrthsefyll yr elfennau, ac yn wag y tu mewn. Cartref i geidwad y goleudy ac yn darparu ffynhonnell oleuni i rybuddio llongau ar y môr o'r creigiau islaw. Ym mha ffyrdd y mae'r goleudy yn efelychu coeden hynafol?***
  Mae ganddo strwythur gwag cryf yn debyg i goeden hynafol, ac mae wedi'i wreiddio'n ddwfn i'r ddaear i wrthsefyll gwyntoedd cryf. Mae lle diogel y tu mewn ar gyfer byw, ynysiad, trydan a phlymio a ffynhonnell olau ar y brig.
- ***Meddyliwch am ffactor pwysig arall sy'n effeithio ar dyfiant coeden?***
  Goleuni – mae pob coeden yn tyfu tuag at oleuni, a'i strwythur yn ymestyn uwchben planhigion eraill sydd i gyd yn brwydro i sicrhau cymaint o oleuni â phosibl. Mae goleuni ynghyd â ffotosynthesis y dail yn creu egni sy'n llifo drwy'r goeden. Mae dail yno i gipio'r egni hwn a bwydo'r goeden.

  Mae paneli solar a ddefnyddir mewn adeiladu yn gweithredu i arbed egni drwy gipio golau'r haul a'i drawsnewid yn egni. Mae adeiladwyr yn defnyddio gwydr i ddarparu goleuni ac i inswleiddio.

- ***Beth mae goleuni yn ei ddarparu?***
  Mae'r haul yn ffynhonnell egni sy'n galluogi coed i dyfu. Mae dail yno i gipio'r egni hwn a bwydo'r goeden. Casglwch ddail a brigau a deunyddiau eraill i'w defnyddio yn y dosbarth.

Gofynnwch i'r disgyblion lunio cyfres o frasluniau yn defnyddio'r wybodaeth hon a'u syniadau fel astudiaethau ar gyfer eu gwaith prosiect terfynol.

Gan ddefnyddio deunyddiau gwahanol, ceisiwch greu argraff o gryfder boncyff y goeden mewn cymhariaeth â maint a siâp ysgafn y dail. Dychmygwch pa mor fach yw deilen yn eich llaw mewn cymhariaeth â choeden sydd tua 20 metr o uchder.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

Rhan 3 (parhad)

Defnyddiwch baentiau, golchion neu Conté i ddangos maint a chryfder y goeden a phensiliau neu ben manwl i ychwanegu manylion fel y dail.

Defnyddiwch baentiau, inc a golch neu bensiliau caled a meddal gyda Conté neu siarcol i lunio lluniadau manwl o ddail, brigau a changhennau.

Defnyddiwch y peniau neu bensiliau caled i lunio manylion mân a'r golch neu Conté i adeiladu darnau mwy. Lluniwch gyfres o frasluniau o strwythurau dail, hadau, blagur a brigau.

Lluniwch strwythur amlinellol o'ch coeden yn defnyddio golchion a Conté i greu swmp a chryfder y boncyff.

Astudiwch luniadau manwl o blanhigion i astudio technegau ac arddulliau. Defnyddiwch y Rhyngrwyd i ganfod mwy o wybodaeth am goed ac adeiladwaith adeiladau.

Defnyddiwch gamerâu i dynnu ffotograffau o'ch coeden i ddangos graddfa a manylion. Arbrofwch gyda lluniau ongl-eang i gael golygfeydd anarferol, yn edrych i fyny boncyff y goeden, drwy ddail, a lluniau o ffrindiau o amgylch y goeden i ddangos graddfa a maint. Ceisiwch orwedd ar y ddaear am olygfa o gyfeiriad gwahanol.

Pan fydd y disgyblion wedi gwneud digon o ymchwil, dechreuwch ddefnyddio eu gwybodaeth mewn ffordd greadigol i archwilio'r syniad o sut i fraslunio syniadau ar gyfer cerflun neu ddyluniad adeilad i'w gwaith terfynol.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

UNED 1: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 3 Cynhyrchu gwaith celf terfynol fel cysyniad ar gyfer dyluniad 3D:

Amcanion dysgu

- Dysgu sut i drosglwyddo nodiadau, ffotograffau a brasluniau o Ran 2 i luniadau mwy adeiladol, gan roi gwybodaeth ynghyd i gynhyrchu lluniad neu baentiad gorffenedig ar gyfer cerflun neu ddyluniad 3D.
- Dysgu sut i raddio brasluniau i feintiau mwy ac ychwanegu creadigrwydd i'w dehongliadau pan fyddant yn trosglwyddo'r arsylwadau hyn i bapur mwy.
- Trawsnewid gwybodaeth organig weledol yn siapiau a ffurfiau pensaernïol.
- Cyd-weithio i gyflawni ystod ehangach o syniadau a chanlyniadau gan ddefnyddio gwahanol sgiliau unigol.
- Dysgu lluniadu mewn 2D gyda gwrthrychau 3D mewn golwg gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau amrywiol i gyflawni hyn.

Strwythur a Ffurf – cynhyrchu gwaith celf terfynol fel cysyniad ar gyfer dyluniad 3D.

Erbyn hyn, bydd gan y disgyblion gyfres o nodiadau, lluniadau a brasluniau a baratowyd yn ystod yr ymweliad â'u coeden. Gan ddefnyddio'r syniadau hyn, defnyddiwch y wers hon i baratoi lluniadau neu baentiadau manwl i Ran 4, sef y gwaith terfynol. Gall y lluniadau hyn fod o wahanol feintiau gan ddibynnu ar eich syniad. Gall hefyd fod yn brosiect tîm neu grŵp, a gellid ei gysylltu â grwpiau eraill neu â chysyniad unigol.

Gweithiwch yn unigol ar eich brasluniau a'ch syniadau chi ac fel grŵp i rannu gwybodaeth ymysg eich gilydd.

Defnyddiwch bapur A3 neu fwy i drosglwyddo eich brasluniau i raddfa fwy. Defnyddiwch gridiau i gynyddu maint eich brasluniau neu ffotograffau.

Offer angenrheidiol

Ystod o bensiliau 1B – 9B, pensiliau a chreonau graffit neu Conté, siarcol; creonau cwyr a pinau ffelt

Llyfrau braslunio o'r wers flaenorol

Papur cetris A3 neu fwy i gynhyrchu'r dyluniadau terfynol

Paentiau dyfrsail a brwshys

Defnyddiwch gyfryngau amrywiol fel pensiliau a Conté i adeiladu eich lluniadau. Ychwanegwch liw i ddangos dyfnder a ffurf neu i wrthgyferbynnu ysgerbwd y goeden ac i ychwanegu siâp.

Peintiwch neu lluniadwch yn rhydd i fynegi symudiad a siâp tra'n cadw'r wybodaeth a ddysgoch am y strwythur. Mae hyn yn golygu defnyddio gwybodaeth a theimladau i gynhyrchu canlyniadau creadigol. Ceisiwch ddarganfod siapiau a ffurfiau newydd gyda'r wybodaeth a ddysgoch yn eich gwersi blaenorol.

Yn y wers hon, gellir defnyddio unrhyw ran o'r goeden i ddatblygu eich gwaith terfynol - dail, blagur a brigau, canghennau a boncyff. Dychmygwch fod sbiral o frigau a blagur yn dod yn gerflunwaith cain, bod deilen yn dod yn do neu mosaic o ganghennau a dail. Defnyddiwch eich dychymyg i ymestyn y syniadau hyn.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

Rhan 3 (parhad)

Erbyn hyn, bydd y disgyblion wedi cynhyrchu cyfres o weithfeydd celf ar gyfer eu prosiect terfynol – sef cynhyrchu cerflunwaith neu ddyluniad 3D.

Trafodwch ganlyniadau eu gwaith gyda nhw a gwerthuswch i ba raddau y maent wedi trosglwyddo eu harsylwadau'n llwyddiannus i syniadau y gellid eu defnyddio. Ystyriwch oblygiadau gwneud pethau mewn 3D a helpwch nhw i lywio eu syniadau fel bo modd cyflawni'r prosiect.

Defnyddiwch drafodaethau grŵp i annog disgyblion i feddwl am y gofynion technegol a'r dulliau angenrheidiol i gynhyrchu'r gwaith terfynol.

Er mwyn paratoi at y wers nesaf, edrychwch ar y deunyddiau a'r offer llaw angenrheidiol ar gyfer gwneud y gwaith 3D a sicrhewch y byddant ar gael.

Syniadau eraill am wersi – Ystyriwch sut y gellid defnyddio hyn eto mewn gwersi eraill yn y dyfodol fel dylunio murluniau, cloriau cylchgrawn, cloriau CD neu waith argraffu.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf
COED HYNAFOL

UNED 1: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 4 Cynhyrchu gwaith terfynol mewn 3D:

Amcanion dysgu

- Dysgu dadansoddi a dehongli ffurf organig yn arsylwadau 2D ac yna cynhyrchu cerflunwaith neu ddyluniad 3D.
- Dysgu defnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer llaw i gyflawni'r canlyniadau y maent yn eu dymuno.
- Cydweithio i ddylunio syniadau gweithredol a haniaethol.
- Dysgu ystyried a gwerthfawrogi'r amgylchedd a'i weld fel ffynhonnell ysbrydoliaeth i archwilio technegau a mynegi teimladau a gwybodaeth yn defnyddio deunyddiau 3D.
- Cyfranogi mewn cynllun cenedlaethol gyda Coed Cadw gyda'r posibilrwydd bod gwaith yn cael ei arddangos ar flogiau a gwefannau ac yn cael ei rannu gydag ysgolion eraill.
- Bydd pynciau eraill fel Gwyddoniaeth a Hanes hefyd wedi cael sylw yn natblygiad y prosiect hwn.
- Astudir artistiaid a dylunwyr eraill i ddeall eu technegau a'u cysyniadau.
- Astudio gwybodaeth am isadeiledd mewn dylunio a thirluniau amgylcheddol.
- Byddai'n bosibl ymestyn y prosiect hwn i lawer o feysydd eraill trwy gyfrwng Celf a Dylunio, pynciau cwricwlaidd eraill, rhannu gydag eraill drwy'r Rhyngrwyd a chyfranogiad trigolion a grwpiau lleol.

Strwythur a Ffurf – Cynhyrchu gwaith terfynol mewn 3D.

Erbyn hyn, bydd gan ddisgyblion wybodaeth o strwythur a swyddogaeth coeden hynafol. Byddant wedi edrych ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol a deall pwysigrwydd gwarchod ein hetifeddiaeth a dysgu sut i ymgorffori'r neges hon i waith dylunio cyfoes a'r ffordd o fyw gyfoes mewn trefi a dinasoedd.

Offer angenrheidiol

Ystod o bensiliau 1B – 9B, pensiliau a chreonau graffit neu Conté, siarcol; creonau cwyr a pheniau ffelt

Glud a phast

Paentiau a brwshys, mawr a bach, (brwshys paentio waliau ar gyfer mannau mwy) ar gyfer peintio'r strwythurau terfynol

Deunyddiau Papier Maché

Ystod o wifrau tenau a choiliau trwchus o wifrau, a rhwyllau gwahanol drwch ar gyfer adeiladu fframwaith a strwythurau

Plinthiau pren i gynnal strwythurau, styffylau ac offer llaw – morthwyl a gefeiliau

O'u hastudiaethau, byddant yn deall yn well fanylion ac isadeiledd coed mewn perthynas â phensaernïaeth. Bydd eu brasluniau a'u harsylwadau wedi rhoi dealltwriaeth ddyfnach iddynt o fanylion coed, y gwrthgyferbyniad rhwng bach a mawr, garw a llyfn a'r gwahaniaethau rhwng rhywogaethau.

Nawr, mae arnynt angen defnyddio'r wybodaeth a'r profiad yma i feddwl yn adeiladol ac yn greadigol er mwyn cynhyrchu darn o gelf 3D llawn dychymyg. Defnyddiwch y canlynol i helpu annog ac ysbrydoli'r dosbarth ymhellach.

Gweithiwch fel grwpiau neu'n unigol i adeiladu cyfres o gerfluniau all weithio gyda'i gilydd neu fel darn unigol o waith.

Dechreuwch lunio'r gwaith o luniadau a brasluniau a'r deunyddiau sydd ar gael: gwifrau, gwaelodion pren, a papier maché.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Strwythur a ffurf

COED HYNAFOL

Rhan 4 (parhad)

Gall hyn fod ar ffurf cromenni siâp dail, siapiau uchel a main sy'n plygu yn y gwynt neu hyd yn oed rwydweithiau crwybr sy'n tyfu a throelli. Defnyddiwch ddychymyg i greu siapiau a ffurfiau haniaethol hyd yn oed. Mae llawer o arlunwyr a phenseiri yn defnyddio natur fel ffynhonnell ysbrydoliaeth.

Gadewch i emosiynau a theimladau yn ogystal â gwybodaeth archwilio'r siapiau a'r ffurfiau newydd a chyffrous hyn.

Dychmygwch wedd y rhisgl, siâp cain deilen, hyd yn oed y lliwiau: brown, coch, gwyrdd, a llawer mwy.

Cofiwch sut mae'r elfennau wedi siapio'r goeden – y gwynt, haul a glaw.

Defnyddiwch raddfa i wella dyluniadau ymhellach. Gall dail ddod yn ganopïau fel cromenni mawr yn gweithio fel ambarél enfawr neu doeon. Sut gall ysgerbwd bach y ddeilen ddod yn strwythur i ffenestri a gwydr i gipio'r goleuni?

Gellir defnyddio lliwiau i beintio cerfluniau – gwyrdd a brown cynnil i ffurfio cuddliw, coch a gwyrdd llachar i ddod yn symbolau haniaethol hardd.

Ar raddfa fawr, gellid adeiladu amgylchedd coeden gyfan fel prosiect grŵp. Dychmygwch fyw y tu mewn i goeden gyda tho a seddi. Defnyddiwch y fframwaith sylfaenol fel yr ysbrydoliaeth a rhowch ryddid iddynt ddatblygu'r cysyniad hwn.

Yn olaf, tynnwch ffotograffau o'r gwaith a chyflwynwch nhw i Coed Cadw fel enghreifftiau o'ch prosiect. E-bost: **learning@woodlandtrust.org.uk**.

Adolygu'r prosiect

Trafodwch a yw nodau ac amcanion y prosiect yn ei gyfanrwydd wedi bod yn llwyddiannus.

Edrychwch ar sut dechreuodd y syniadau a sut maent wedi'u trawsffurfio – ydyn nhw wedi esblygu fel yr oeddech yn ei ddychmygu?

Sut mae ymarferoldeb a chreadigrwydd wedi asio â'i gilydd?

A oes unrhyw brosiectau newydd y gellid eu datblygu o'r un yma? A yw'n haeddu mwy o gyhoeddusrwydd yn yr ysgol neu yn y gymuned, o bosibl ar ffurf arddangosfa?

A ellid tynnu ffotograffau i lunio erthygl newyddion i'r gwefannau y soniwyd amdanynt?

Gellid ehangu ar y wers hon trwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i greu motiffau a dyluniadau i deiliau cerameg, cerfweddau clai a gwaith 3D pellach.

Gall fod yn bosibl datblygu'r prosiect hwn ar y cyd â phynciau craidd eraill.

Ystyriwch sut gallai'r prosiect hwn weithio mewn cysylltiad â phrosiectau Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Hanes a Gwyddoniaeth.

Chwiliwch am wersi pellach ar Goed Hynafol yn y gyfres hon.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST